Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2020
2 Mawrth 2020 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. Presennol

Rhydwen Roberts, Nia Povey, Llio Griffiths, Glyn Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd Cofnodion 3 Chwefror 2020.

4. Dogfennau Polisi Un Llais Cymru

Atgoffwyd pawb i ystyried y polisiau dros y flwyddyn nesaf, fel y gellir eu cymeradwyo'n ffurfiol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei flaen. Cytunwyd ar yr angen i ymgorffori'r polisiau dros gyfnod o amser. Bydd angen eu teilwra at ddefnydd y cyngor cymuned yn gyntaf.

.5. Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 13 Garreg Frech

Cafwyd ateb gam Gyngor Gwynedd. Mae cais wedi ei gyflwyno yn y llys gan Gyngor Gwynedd am orchymyn arwystl, (charging order), ar yr eiddo, oherwydd y ddyled treth cyngor sydd yn ddyledus. Gobeithir y bydd y cais yn weithredol erbyn dechrau mis Ebrill, ac yna fe ellir gosod rhybudd ar yr eiddo a bwrw ymlaen i'w werthu os nad yw'r ddyled yn cael ei thalu.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn bwriadu danfon eu swyddogion ar hyfforddiant eiddo gwag fis Ebrill.

Cytunwyd fod hyn yn gam positif, a'i fod o leiaf yn dangos dymuniad gam Gyngor Gwynedd i gymryd camau mwy rhagweithiol yn y dyfodol o ran eiddo gwag tymor hir yn y sir.

5.2 Y Ganolfan

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths i drefnu fod y bibell fetel sydd wedi torri yn cael ei thrwsio.

Mae'r Clerc i drefnu cyfarfod rhwng rhai o aelodau'r cyngor cymuned a chynrychiolydd o adran eiddo Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd er mwyn trafod dyfodol Y Ganolfan.

Holwyd tri contractwr trydan lleol am bris i wneud arolwg o ddiogelwch trydanol Y Ganolfan. Gobeithir cael yr arolwg wedi ei wneud cyn mis Mai ac etholiad Comisiynydd yr Heddlu.

Cafwyd cais gan glwb gweu lleol i ddefnyddio'r Ganolfan ar gyfer cynnal sesiynau'r clwb. Cytunwyd i'r cais yma mewn egwyddor, ond gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt i ddweud nad oedd Y Ganolfan ar gael yn y tymor byr, ond gobeithir y bydd ar gael i'r clwb o ddiwedd mis Ebrill ymlaen.

5.3 Mynwent Tan Lan

Bu i'r Cynghrowyr Dafydd Watts a Glyn Griffiths gyfarfod efo Aled Lloyd o Barc Cenedlaethol Eryri er mwyn trafod datblygu'r fynwent. Nid oedd yn rhagweld problem o ran datblygu'r fynwent, a gofynnodd i'r cynlluniau arfaethedig gael eu danfon ymlaen ato iddo gael eu hystyried ymhellach.

Yn ystod yr un cyfarfod, gofynnwyd a fyddai'r Parc Cenedlaethol yn gwrthwynebu codi cysgodfan fws dros y ffordd i dafarn Brondanw. Mae'n debyg na fyddai yna wrthwynebiad mewn egwyddor ond mae'n dibynnu ar yr union gynllun. Byddai defnyddio cerrig neu bren lleol a lliwiau stâd Brondanw o gymorth.

Mae yna goeden wedi cwympo yn y fynwent ac angen gofyn i Dylan ei symud oddi yno.

5.4 Goryrru Llanfrothen

Bu rhaid gohirio'r cyfarfod a drefnwyd gan fod swyddog Cyngor Gwynedd yn methu mynychu oherywdd iddo dorri ei goes. Gobeithir y bydd hi'n bosibl trefnu cyfarfod eto, rywbryd ym mis Ebrill.

Byddai'n ddelfrydol trefnu'r cyfarfod ar gyfer 15:30, oherwydd dyna pryd mae'r traffig brysuraf.

5.5 Cyfethol Aelod

Cafwyd 2 gais am y ddwy sedd wag, ac fe gyfetholwyd Dion Roberta ac Elin Jones yn unfrydol ar gyfer y ddwy.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc, Chwefror 2020 £214.20

6.2 TWE Ionawr 2020 £53.60

6.3 Anfoneb Michael Kerr, agor bed, 17 Chwefror, rhif 2714 £450.00

6.4 Anfoneb Un Llais Cymru aelodaeth 2020/21 £80.00

6.5 Anfoneb Un Llais Cymru Polisiau, rhif 5230, £300.00

6.6 Derbyn £1,150.00 gan Pritchard & Griffiths, taliad rhif 2714

Cymeradwywyd talu'r uchod.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar gyfrifon banc HSBC.

Mae angen diweddaru'r mandad banc a'r rhai sy'n medru llofnodi sieciau. Gobeithir cael cyfarfod efo bsnc yr HSBC yng Nghaernarfon yn fuan.

7. Rhoddion Ariannol 2019/20

Cytunwyd rhoi rhoddion ariannol fel a ganlyn:-

- Ysgol y Garreg £150.00
- Papur bro Yr Wylan £50.00
- Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50.00

8. Materion Eraill

8.1 Asesiad Risg

Mae angen gweithredu ar asesiad risg y Cyngor. Bydd hyn yn golygu ymweld â'r fynwent a'r meinciau lleol a thynnu lluniau yn ôl yr angen.

8.2 B4410 Pant

Mae coeden mewn peryg o ddisgyn ar y ffordd yn Pant, wedi pasio y troad i Gamfa Wen ar ochr chwith y ffordd

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i roi gwybod iddynt am hyn.

8.3 Enw'r Cyngor

Weithiau cyfeirir at y cyngor fel Cyngor Cymdeithas Llanfrothen yn hytrach na Cyngor Cymuned Llanfrothen. Cytunwyd yn unfrydol mai Cyngor Cymuned Llanfrothen yn unig ddylai gael ei ddefnyddio o hyn ymlaen.

8.4 Cadw dogfennau

Trafodwyd yr angen i storio dogfennau llywodraethol y cyngor cymuned yn saff, ac mewn lle y medr aelodau gael mynediad I'r ddogfennaeth er mwyn eu haddasu yn ôl y galw.

Ystyriwyd fod defnyddio safle cwmwl fel Dropbox yn ateb posibl.

Cytunwyd fod angen llunio amserlen yn nodi prif gerrig filltir y cyngor cymuned yn ystod y flwyddyn, e.e. cyfarfod blynyddol, cyllideb, adolygu cyllideb, rhoddiion ac yn y blaen.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

6 Ebrill 2020.